Smith Wigglesworth 1859–1946

Pregethwr a chefnogwr y weinidogaeth iacháu

Ganwyd Wigglesworth i deulu dosbarth gweithiol yn Swydd Efrog ym 1859. Nid oedd ei rieni yn Gristnogion ac fe ymddengys mai'r dylanwad crefyddol mwyaf ar ei fywyd oedd ei nain a oedd yn Fethodist Wesleaidd. Yn fachgen ifanc byddai'n mynd gyda hi yn gyson i gyfarfodydd. Yn un o'r cyfarfodydd hyn pan oedd yn wyth oed deallodd fod Iesu wedi marw dros ei bechodau. Dywedodd yn ddiweddarach, 'Gwelais fod Duw am ein cadw fel ei fod wedi gwneud y telerau mor syml â phosibl – Credwch.'

O'r dydd hwnnw ymlaen roedd yn llawn sêl i ennill pobl i Grist a'r cyntaf ohonynt oedd ei fam. Pan oedd yn ddeg oed fe'i derbyniwyd yn aelod mewn eglwys Anglicanaidd leol a phan oedd yn dair ar ddeg fe symudodd y teulu i fyw i Bradford. Yno, ceisiodd rannu ei ffydd gyda bechgyn ifanc ac ymunodd â'r Christian Mission a ddatblygodd yn ddiweddarach i fod yn Fyddin yr Iachawdwriaeth.

Priododd pan oedd yn un ar hugain gyda Polly Featherstone, swyddog gyda Byddin yr Iachawdwriaeth, a chychwynasant waith cenhadol yn Bradford lle nad oedd unrhyw dystiolaeth Gristnogol. Roedd yn ei gynnal ei hun fel plymwr. Yn y cyfnod hwn iachawyd y ddau ohonynt o anhwylderau mewn cyfarfod yn Leeds a dechreuasant feithrin diddordeb yn y weinidogaeth iacháu. Am ugain mlynedd gweinidogaethodd y ddau yn Bradford gan bregethu yn yr awyr agored ac yn eu canolfan genhadol a gweddïo dros y cleifion. Clywodd Smith fod diwygiad yn Sunderland lle roedd pobl yn cael eu bendithio yn yr Ysbryd ac yn siarad â thafodau. Aeth yno a thystiai wedyn ei fod wedi derbyn 'gwir fedydd yr Ysbryd Glân fel ar ddydd y Pentecost'. Roedd hwn yn drobwynt mawr yn ei weinidogaeth a'i harweiniodd i fod yn Bentecostalaidd a chyn pen dim yr oedd ef a'i wraig yn derbyn gwahoddiadau i siarad ar hyd a lled gwledydd Prydain am eu profiadau. Profodd ryddid mawr wrth bregethu a manteisiai ar bob cyfle i ddweud wrth eraill am Iesu Grist.

Ei brif bwyslais oedd ffydd yn Nuw a chredai fod ffydd sicr yn dod â chanlyniadau sicr. Oherwydd ei ddawn i iacháu tyrrai pobl sâl yn eu miloedd i'w gyfarfodydd yn y gobaith y byddent yn cael eu gwella. Tros y blynyddoedd honnai fod Duw wedi ei ddefnyddio i beri i'r cloff gerdded, i'r byddar glywed, i'r dall weld, i fwrw allan gythreuliaid a hyd yn oed i godi'r meirw'n fyw. Wedi marwolaeth ei wraig ym 1913 teithiodd lawer mwy gan fynd dramor i gynnal ymgyrchoedd cenhadol. Aeth i'r Unol Daleithiau, y Swistir, Sgandinafia, Awstralia, Seland Newydd ac India. Pan oedd ef ei hun yn sâl gwrthodai gyngor meddygol gan ddibynnu'n llwyr ac yn gyfan gwbl ar weddi. Bu farw ar 12 Mawrth, yn 87 mlwydd oed.